# Mesur Diogelwch ar Gludiant i Ddysgwyr (Cymru) 2011

**2011 mccc 6**

**5 Hyfforddi gyrwyr**

Ar ôl adran 14D o Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 rhodder—

"**14E Hyfforddi gyrwyr**

(1) Caiff rheoliadau ei gwneud yn ofynnol i gorff perthnasol sy'n darparu neu yn sicrhau fel arall bod cludiant i ddysgwyr yn cael ei ddarparu sicrhau bod gyrwyr cerbydau a ddefnyddir at y cyfryw gludiant wedi cwblhau hyfforddiant rhagnodedig i safon ragnodedig.

(2) Caniateir rhagnodi hyfforddiant a safonau drwy gyfeirio at ddogfen a gyhoeddir, fel a bennir yn y rheoliadau, gan Weinidogion Cymru.

(3) Yn yr adran hon ystyr "hyfforddiant" yw hyfforddiant am ddiogelwch ar gludiant i ddysgwyr a gweithio gyda phlant.".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 5 mewn grym ar 10.7.2011, gweler **a. 16(2)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Diogelwch ar Gludiant i Ddysgwyr (Cymru) 2011, Adran 5.